LLESIANT POBL IFANC

# OEDOLION IFANC SY'N OFALWYR

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

MEDI 2019

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Ynglŷn a'r adroddiad hwn | 3 |
| Darlun o oedolion ifanc sy'n ofalwyr | 5 |
| Beth mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'i gyflawni? | 7 |
| Pwy arall sy'n chwarae rhan? | 8 |
| Faint sy'n cael ei wario? | 9 |
| Cyfleoedd i wella | 11 |



Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
Mae croeso i chi ein ffonio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru



Mae'r adroddiad yma wedi cael ei baratoi i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Yr oedd tîm astudiaethau Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Mark Jeffs, Rachel Harries, a Verity Winn o dan arweinyddiaeth Matthew Mortlock.

# YNGLŶN A'R ADRODDIAD HWN


## Ynglŷn â'n gwaith ar lesiant pobl ifanc

### Cydweithio

Rydym wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau eraill i archwilio thema gyffredin, sef 'Ieuenctid'. Cyhoeddodd yr arolygiaeth addysg, Estyn, ei hadroddiad ar **wasanaethau cymorth ieuenctid** ym mis Gorffennaf 2018. Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ei **hadolygiad o wasanaethau gofal iechyd i bobl ifanc** ym mis Mawrth 2019. Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru **ei hadroddiad ar blant a phobl ifanc** sydd wedi bod mewn gofal ym mis Mehefin 2019.

### Ein gwaith ni

Fe edrychom ni ar waith Llywodraeth Cymru i gefnogi llesiant pobl ifanc yng Nghymru. Mae llesiant yn gysyniad eang, felly rydym wedi canolbwyntio ein gwaith ar bum pwnc: digartrefedd ieuenctid; oedolion ifanc sy'n ofalwyr; rhieni ifanc; iechyd meddwl; a sgiliau a chyflogadwyedd. Rydym yn cyhoeddi saith cynnyrch yn seiliedig ar ein gwaith, gan gynnwys yr adroddiad hwn. Mae'r diagram isod yn darparu dolen i bob cynnyrch.



## Ynglŷn â'r adroddiad hwn am oedolion ifanc sy'n ofalwyr

Yn yr adroddiad hwn rydym yn cyfeirio at oedolion ifanc sy'n ofalwyr fel pobl ifanc 16-24 oed[1] sy'n gofalu am rywun heb gael tâl am wneud. Mae llawer o resymau pam fod angen gofal ar bobl. Efallai eu bod yn sâl, efallai fod ganddynt anabledd, problem iechyd meddwl neu eu bod yn gaeth i sylwedd ac yn ei chael yn anodd ymdopi ar eu pen eu hunain. Fe edrychom ni ar oedolion ifanc sy'n ofalwyr am bod gofalu'n gallu cael effaith fawr ar lesiant corfforol, emosiynol a meddyliol person ifanc. Mae ar Lywodraeth Cymru eisiau gwella llesiant yr holl ofalwyr ond mae'n cydnabod y gall fod gan oedolion ifanc sy'n ofalwyr anghenion penodol.

Nid yw'r adroddiad hwn yn archwiliad cynhwysfawr o wasanaethau i oedolion ifanc sy'n ofalwyr. Ein ffocws yw'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi sefydliadau sy'n helpu oedolion ifanc sy'n ofalwyr. Rydym yn rhoi ein harsylwadau yn seiliedig ar gyfweliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Fe wnaethom hefyd adolygu strategaethau, cynlluniau, tystiolaeth ymchwil ac ystadegau Llywodraeth Cymru. Mae'r diagram isod yn darparu trosolwg o'r adroddiad hwn a gallwch ei ddefnyddio i symud i'r gwahanol adrannau sy'n egluro'r hyn a ganfuom.

### Darlun o oedolion ifanc sy'n ofalwyr

Roedd 6% o bobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru'n ofalwyr yn 2011.

### Faint sy'n cael ei wario

Nid yw'n gwbl glir faint sy'n cael ei wario ar ofalwyr o bob oed gan gynnwys oedolion ifanc sy'n ofalwyr.

### Pwy sy'n chwarae rhan

Rhaid i gynghorau a byrddau iechyd weithio gyda sefydliadau eraill i adnabod a chefnogi oedolion ifanc sy'n ofalwyr.

### Beth mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'i gyflawni

Mae tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr o bob oed. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dweud sut y dylai sefydliadau helpu gofalwyr.

### Cyfleoedd i wella dull Llywodraeth Cymru


Gallai seilio'i chynlluniau ar dystiolaeth well. Gallai hefyd fod yn fwy clir ynglŷn â pha gymorth y gall oedolion ifanc sy'n ofalwyr ei gael a'i rôl hi ei hun o ran gwneud yn siŵr eu bod yn ei gael.

#### TROEDNODION

1 Mae rhai sefydliadau'n defnyddio grwpiau oedran gwahanol i ddisgrifio oedolion ifanc sy'n ofalwyr.

# DARLUN O OEDOLION IFANC SY'N OFALWYR

## Pobl ifanc 16 i 24 oed yn darparu gofal di-dâl yn 2011[2]




ddim yn darparu gofal, 94% neu 331,060 o bobl

yn darparu gofal di-dâl 6% neu 21,113 o bobl

yn darparu 1 i 19 awr, 4% neu 14,936 o bobl

yn darparu 20 i 49 awr, 1% neu 3,527 o bobl

yn darparu 50 awr neu fwy, 1% neu 2,650 o bobl



Roedd mwy o fenywod ifanc na dynion ifanc yn darparu gofal di-dâl yn 2011 (11,506 o fenywod o'i gymharu â 9,607 o ddynion). **Cliciwch yma i weld fersiwn ryngweithiol o'r siart**. Mae **ein hofferyn data'n** rhoi rhagor o wybodaeth am oedolion ifanc sy'n ofalwyr.


Ffynhonnell: Darpariaeth Gofal Di-dâl, Cyfrifiad 2011

TROEDNODION

2 Efallai y bydd data yn yr adroddiad hwn ychydig yn wahanol i'n hofferyn data ni sy'n cynnwys diweddariadau data byw.

Mae **ymchwil ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr** yn dangos y canlynol am oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn y DU:

## Ysgol, coleg neu brifysgol




- Maent yn debygol o golli ysgol, cael eu bwlio a chael graddau is, er bod 26% wedi dweud bod defnyddio gwasanaethau arbenigol ar gyfer oedolion ifanc sy'n ofalwyr wedi gwella'u graddau a'u presenoldeb.
- Maent bedair gwaith yn fwy tebygol o adael y coleg neu'r brifysgol cyn pryd.
- Roedd llawer heb ddweud wrth unrhyw un yn yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol eu bod yn ofalwr. Roedd llawer a oedd wedi dweud wrth rywun eu bod yn ofalwr yn teimlo nad oeddent yn cael y cymorth addysgol yr oedd ei angen arnynt.

## Gwaith



- Maent yn debygol o fod yn rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).
- Maent yn colli 17 o ddiwrnodau gwaith y flwyddyn ar gyfartaledd.
- Roedd llawer yn blaenoriaethu gofalu dros ddewisiadau gwaith gan gynnwys dewis swydd yn nes at adref ac i gyd-fynd â chyfrifoldebau gofalu.

## Iechyd



- Dywedodd 65% fod ganddynt anabledd neu anhawster iechyd. Dywedodd 45% fod ganddynt broblem iechyd meddwl gan gynnwys gorbryder, iselder ac anhwylderau bwyta.
- Dywedodd 72% fod defnyddio gwasanaethau arbenigol ar gyfer oedolion ifanc sy'n ofalwyr wedi cynyddu eu hyder a dywedodd 60% fod hynny'n gwneud iddynt deimlo bod ffrindiau ganddynt.

## Gwybodaeth



- Nid oes ganddynt ddigon o wybodaeth am yr adnoddau a'r canllawiau sydd ar gael iddynt
- Nid oedd llawer yn teimlo bod ganddynt yr wybodaeth a'r cyngor yr oedd eu hangen arnynt i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys cyngor da ynghylch gyrfaoedd a chyngor ynghylch trefnu gwaith mewn modd sy'n cyd-fynd â gofalu.

Dywedodd sefydliadau sy'n gweithio gydag oedolion ifanc sy'n ofalwyr wrthym fod perthnasoedd yn gallu bod dan straen pan fo person ifanc yn gofalu am riant ac yn ceisio mynnu eu hannibyniaeth wrth iddynt dyfu'n oedolyn. Mae Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal **ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** ar fod yn ofalwr. Ym mis Ionawr 2019, dywedodd pobl ifanc o Gyngor Ieuenctid Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wrth y Pwyllgor sut beth yw bod yn ofalwr. Fe ddisgrifion nhw euogrwydd, arwahanrwydd, bwlio, diffyg cydnabyddiaeth ac anghysondeb y cymorth.

# BETH MAE LLYWODRAETH CYMRU YN CEISIO'I GYFLAWNI?

Fe newidiodd **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** y ffordd y mae Gweinidogion Cymru, cynghorau a byrddau iechyd yn helpu pobl y mae arnynt angen gofal, neu ofalwyr y mae arnynt hwy angen cymorth eu hunain. Nod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw helpu pobl y mae arnynt angen gofal neu gymorth i gyflawni llesiant a'u cynnwys mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gofal eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru yn egluro'r hyn y mae'n ei olygu wrth lesiant yn ei **Datganiad Llesiant.**


Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn dweud bod rhaid i gynghorau a byrddau iechyd gydweithio â'u partneriaid mewn partneriaethau newydd a elwir yn Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Rhaid iddynt ddod i wybod am bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth yn eu hardal leol a rhoi'r wybodaeth hon mewn asesiad o anghenion y boblogaeth leol.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar gynghorau a byrddau iechyd i weithio gyda'u partneriaid i gynnal **asesiadau unigol** gan ddweud pa ddeilliannau y mae pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth yn dymuno'u cyflawni a pha gymorth y mae ei angen arnynt i wneud hynny. Rhaid iddynt hefyd gynnal asesiadau ar gyfer gofalwyr o bob oed.

**Mae Llywodraeth Cymru yn rhestru tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr o bob oed ar ei gwefan:**

- Cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu
- Adnabod a chydnabod gofalwyr
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy

Nid oes gan Lywodraeth Cymru flaenoriaethau penodol ar gyfer oedolion ifanc sy'n ofalwyr ond mae'n cydnabod bod ganddynt anghenion penodol, ac mae'n cyllido rhai sefydliadau yn y trydydd sector i gefnogi gofalwyr o bob oed[3]. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu **Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr** i gefnogi gwaith ar ei blaenoriaethau cenedlaethol.




Mae **Canllawiau Ymestyn Hawliau 2002** Llywodraeth Cymru yn nodi pa gymorth y mae gan yr holl bobl ifanc hawl iddo dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. **Fe gomisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad** o'i chanllawiau yn 2018 ond nid yw wedi penderfynu a ddylid eu diweddaru.

TROEDNODION

3 Gan gynnwys cyllid i Plant yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ddarparu gwybodaeth ar gyfer gofalwyr a chynyddu ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr.

# PWY ARALL SY'N CHWARAE RHAN?

## Pwy arall sy'n rhan o gefnogi oedolion ifanc sy'n ofalwyr?

Mae dyletswydd gyfreithiol ar gynghorau a byrddau iechyd i helpu oedolion ifanc sy'n ofalwyr. Mae rhai cynghorau'n cefnogi oedolion ifanc sy'n ofalwyr eu hunain ac mae eraill yn talu i sefydliadau yn y trydydd sector wneud hynny ar eu rhan.


**Gofal Cymdeithasol Cymru** sy'n gyfrifol am reoleiddio a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac arwain gwelliant yn y sector. Mae Llywodraeth Cymru yn pennu amcanion strategol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru mewn llythyr cylch gwaith blynyddol.

Gall athrawon, meddygon teulu a phobl eraill sy'n cwrdd ag oedolion ifanc sy'n ofalwyr helpu i'w hadnabod a'u helpu i ddod o hyd i sefydliadau a all eu helpu.

Mae amryw gyrff yn y trydydd sector yn cefnogi oedolion ifanc sy'n ofalwyr.

# FAINT SY'N CAEL EI WARIO?

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwybod faint y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wario i helpu gofalwyr o bob oed. Mae'r adran isod yn dangos peth o'r arian sy'n cael ei wario i helpu oedolion ifanc sy'n ofalwyr[4]:



**Cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol lleol**

Cynghorau sy'n penderfynu faint o'u cyllideb gwasanaethau cymdeithasol i'w wario ar helpu oedolion ifanc sy'n ofalwyr ac nid ydynt yn rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am y swm y maent yn ei wario.

**Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal seibiant**

Ers 2017-18, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £3 miliwn y flwyddyn i gynghorau i dalu am ofal seibiant ychwanegol i roi egwyl i ofalwyr[5].

**Arian Teuluoedd yn Gyntaf**

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i gynghorau i gyflawni ei rhaglen **Teuluoedd yn Gyntaf**. Mae rhai cynghorau wedi ei ddefnyddio i dalu am gymorth ar gyfer oedolion ifanc sy'n ofalwyr, ond nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth am y symiau y maent yn eu gwario ar oedolion ifanc sy'n ofalwyr. O 2019-20, bydd arian ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei gyfuno ag arian ar gyfer chwe rhaglen arall gan gynnwys gofal plant a chwarae, mewn Grant Plant a Chymunedau newydd.

TROEDNODION

4 Mae'r ffigyrau wedi cael eu talgrynnu i'r pwynt degol agosaf.

5 Yn 2018-19 daeth y cyllid yn rhan o'r Grant Cynnal Refeniw i gynghorau. Mae cynghorau'n defnyddio'r Grant i dalu am nifer o wasanaethau gwahanol a gallant wario mwy neu lai na £3 miliwn ar ofal seibiant.

## Cyllid arall gan Lywodraeth Cymru

Roedd cyllid arall gan Lywodraeth Cymru yn 2018-19 yn cynnwys:

- £1 miliwn ar gyfer byrddau iechyd, cynghorau a'u partneriaid i wella ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr o bob oed
- £210,000 i Gofalwyr Cymru i gefnogi gofalwyr o bob oed
- £206,600 i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i gefnogi gofalwyr o bob oed
- £10,000 i Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan
- £95,000 i sefydliadau'r trydydd sector ar gyfer prosiectau i gefnogi gofalwyr gan gynnwys:
  - £45,000 i Gofalwyr Cymru i helpu cyflogwyr i greu gweithle sy'n ystyriol o ofalwyr
  - £36,000 i **Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru** i ddatblygu cardiau adnabod gofalwyr ifanc
  - £14,000 i Plant yng Nghymru i gefnogi'r **Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc**

## Y Gronfa Gofal Integredig

Fel rhan o gyllideb refeniw £50 miliwn y **Gronfa Gofal Integredig**, yn 2018 rhoddodd Llywodraeth Cymru £15 miliwn i bartneriaethau ledled Cymru i gefnogi plant ag anghenion cymhleth, gofalwyr a phobl ag anableddau dysgu. Rhaid i bartneriaethau ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gronfa. Partneriaethau sy'n penderfynu faint o arian i'w wario ar ofalwyr. Mae partneriaethau'n cyhoeddi cynlluniau buddsoddi sy'n dangos sut y byddant yn gwario'r arian. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaethau i ganfod faint o arian y maent yn ei wario ar ofalwyr o bob oed.

# CYFLEOEDD I WELLA

## Cyfleoedd i wella dull Llywodraeth Cymru

### Adnabod oedolion ifanc sy'n ofalwyr a deall eu hanghenion

Rhaid i gynghorau, byrddau iechyd a'u partneriaid asesu anghenion gofalwyr yn eu hardal ond mae'r wybodaeth sydd ar gael ac ansawdd asesiadau'n amrywio ledled Cymru. Mae data Cyfrifiad 2011 wedi mynd yn hen ac nid yw sefydliadau'n gwybod pwy yw'r oedolion ifanc sy'n ofalwyr na ble y maent. Mae llawer wedi'u cyfyngu i wybodaeth am ofalwyr sydd wedi cael eu hatgyfeirio at eu gwasanaethau. Nid yw rhai pobl ifanc yn sylweddoli eu bod yn ofalwr, sy'n ei gwneud yn anos dod o hyd iddynt. Nid oes gan Lywodraeth Cymru ddarlun cynhwysfawr eto sy'n dangos pwy yw'r oedolion ifanc sy'n ofalwyr a ble y maen nhw gan bod data lleol yn gyfyngedig.

Nid yw oedolion ifanc sy'n ofalwyr wastad yn cael eu hadnabod gan ysgolion, meddygon teulu a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau i annog gweithwyr proffesiynol i adnabod a rhannu gwybodaeth am ofalwyr.

Mae rhai oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn trafod materion sy'n achosi pryder trwy'r Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc. Mae grŵp o ofalwyr ifanc hefyd yn rhannu eu barn gyda Gweinidogion Cymru yn flynyddol[6]. Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr yn ffordd i sefydliadau gynorthwyo gofalwyr i rannu eu barn gyda Llywodraeth Cymru. Ond mae bylchau o hyd yn y ddealltwriaeth ar y cyd am anghenion oedolion ifanc sy'n ofalwyr, yr hyn sydd o bwys iddynt a'u profiad o wasanaethau cyhoeddus. Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr yn bwriadu cydweithio'n agosach gyda gofalwyr ifanc i ddeall eu hanghenion gan gynnwys grŵp ymgysylltu ac atebolrwydd newydd.


Bydd Llywodraeth Cymru yn lansio Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd yn 2020. O dan y Fframwaith, bydd cynghorau'n casglu mwy o wybodaeth am ofalwyr ifanc. Bydd y Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2020.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn casglu storïau gan ofalwyr ifanc (dan 25 oed) a phobl ifanc sy'n profi gofal a chymorth fel rhan o'i waith Mesur y Mynydd. Bydd Mesur y Mynydd yn cyhoeddi ei adroddiad terfynol ar ddiwedd 2020.

TROEDNODION

6 Mae'r grŵp yn cynnwys gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr o brosiectau ledled Cymru. Mae'r bobl ifanc yn gweithredu fel cynrychiolwyr y Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc.

## Deall pa wasanaethau sy'n bodoli a'r bylchau




Gall oedolion ifanc sy'n ofalwyr fod ag anghenion cymhleth. Mae arnynt angen help gyda'u cyfrifoldebau fel gofalwr, megis cael presgripsiynau neu gyngor meddygol. Mae arnynt angen help hefyd mewn rhannau eraill o'u bywydau sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion fel gofalwr. Gallai help gynnwys hyfforddiant neu leoliadau gwaith sy'n cyd-fynd â gofalu, neu help gyda'u llesiant emosiynol sy'n cydnabod y pwysau ychwanegol a all fod arnynt. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan ofalwyr o bob oed fywydau y tu hwnt i ofalu. Mae ganddi flaenoriaeth genedlaethol i gefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn dweud y dylai pobl ag angen cymwys am ofal neu gymorth, gan gynnwys oedolion ifanc sy'n ofalwyr, gael rhywfaint o gymorth. Mae asesiadau o anghenion y boblogaeth leol a gynhelir gan gynghorau, byrddau iechyd a'u partneriaid i fod i oleuo'r broses o ddylunio gwasanaethau lleol. Heb wybodaeth well yn yr asesiadau, mae'n anodd i bartneriaid lleol ddylunio gwasanaethau sy'n diwallu anghenion lleol ac ni all Llywodraeth Cymru wybod a oes digon o gymorth ledled Cymru i ddiwallu anghenion pawb.

Mae help i oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn amrywio ledled Cymru. Dywedodd rhai sefydliadau wrthym nad oes ganddynt ddigon o arian na staff i roi'r help y mae ar bobl ifanc ei angen.

## Deall Costau



Mae rhai sefydliadau'n pryderu ynghylch diffyg buddsoddiad gan y sector cyhoeddus mewn gwasanaethau ar gyfer gofalwyr. Dywedodd gwerthusiad Gofalwyr Cymru[7] o effaith y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar ofalwyr **'Dilyn y Ddeddf'** fod cyllid byrdymor gan Lywodraeth Cymru yn ei gwneud yn anodd i gynghorau gynllunio gwasanaethau ar gyfer gofalwyr o bob oed.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant gan Brifysgol De Cymru. Bydd y gwerthusiad yn cynnwys gwybodaeth am oblygiadau ariannol y Ddeddf. Gyda gwybodaeth well sy'n dangos pa mor dda y mae gwasanaethau lleol yn diwallu anghenion gofalwyr, gall Llywodraeth Cymru ddechrau deall faint fydd yn ei gostio i wneud y pethau y mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn eu haddo neu pa un a all y sector cyhoeddus fforddio hynny. Bydd y contract ar gyfer y gwerthusiad yn cael ei gyflawni dros y tair blynedd nesaf.

Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach ddeall costau bod yn ofalwr i unigolion hefyd. Mae'r costau'n amrywio rhwng gofalwyr ond mae thai yn talu am gymorth ychwanegol ac yn cael anhawster ariannol[8].

TROEDNODION

7 Yn seiliedig ar arolwg ar-lein blynyddol.

8 Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU dan yr Adran Gwaith a Phensiynau yw Lwfans Gofalwyr.

## Llunio polisïau mewn modd cydgysylltiedig

Prif ffordd Llywodraeth Cymru o gydgysylltu ei dull o ran gofal cymdeithasol yw trwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn nodi rhai o'r ffyrdd y mae'n rhaid i sefydliadau gydweithio. Mae helpu gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi gofalwyr mewn ffordd gydgysylltiedig yn mynd y tu hwnt i ofynion y Ddeddf. Ond nid yw llawer o oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn cael cymorth wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion ar draws gwahanol feysydd yn eu bywydau. Dywedodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru fod diffyg meddwl cydgysylltiedig ar draws gwasanaethau yn golygu bod rhai gofalwyr (o bob oed) yn gorfod dewis rhwng eu hanghenion yn hytrach na bod eu holl anghenion yn cael eu diwallu. Dywedodd ei thystiolaeth i'r Pwyllgor fod trefniadau cyllido Llywodraeth Cymru yn un o'r rhwystrau i gydgysylltu cymorth ar gyfer gofalwyr.


Mae ar Lywodraeth Cymru eisiau i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ysgogi cynghorau a byrddau iechyd i ganolbwyntio ar weithio gyda phobl i adnabod a diwallu eu hanghenion cymorth. Fe wnaeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant bennu meini prawf i ddweud pa anghenion sy'n gymwys ar gyfer cymorth[9]. Nid yw'n manylu ar lefel y cymorth na'r math o gymorth y dylai oedolion ifanc sy'n ofalwyr eu disgwyl ym mhob rhan o'u bywydau gan y bydd anghenion a'r ffordd orau o'u diwallu'n amrywio rhwng pobl. Ond nid yw rhai sefydliadau wedi arfer â gweithio fel hyn. Fe ddwedon nhw wrthym bod diffyg gofynion mwy eglur yn golygu nad ydynt wastad yn gwybod gyda phwy i gydgysylltu na pha gymorth i'w roi.

Y tu hwnt i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gall gwasanaethau cyhoeddus roi cymorth gwell i oedolion ifanc sy'n ofalwyr trwy deilwra a chydgysylltu'r gwasanaethau y maent eisoes yn eu darparu. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfleu ei neges ynglŷn â chefnogi gofalwyr mewn ffyrdd amrywiol. Mae hefyd wedi creu cysylltiadau ar draws ei hadrannau ei hun a chyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus i gydgysylltu ei dull. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr i ystyried sut y gall cymorth i ofalwyr gael ei lywio mewn modd mwy strategol, gan Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Bydd y gwaith yn cynnwys creu cysylltiadau ar draws meysydd polisi perthnasol. Ond mae gan Lywodraeth Cymru ragor o waith i'w wneud i drosi cysylltiadau'n wasanaeth cydgysylltiedig sy'n diwallu anghenion oedolion ifanc sy'n ofalwyr. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys cymorth gydag iechyd meddwl a sgiliau a chyflogadwyedd.

TROEDNODION

9 Nid yw rhai anghenion yn gymwys ar gyfer cymorth dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae asesiadau o anghenion gofalwyr unigol wedi'u bwriadu i ganolbwyntio ar yr hyn sydd o bwys i'r unigolyn, ac ar atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth. Efallai na fydd angen i rai anghenion unigol gael eu diwallu gan wasanaethau statudol.

## Penderfynu pwy sy'n gwneud beth



Nid yw'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn dweud pwy sy'n gyfrifol am helpu oedolion ifanc sy'n ofalwyr ym mhob cyfnod ac ym mhob rhan o'u bywydau. Mae sefydliadau sy'n gweithio gydag oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn ei chael yn anodd perswadio sefydliadau eraill ac adrannau eraill mewn cynghorau (heblaw am y gwasanaethau cymdeithasol) i dderbyn bod ganddynt rôl o ran helpu oedolion ifanc sy'n ofalwyr.

Nid yw llawer o oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn gwybod o ble i gael gwybodaeth am wasanaethau yn eu hardal. Mae gwefan **Dewis Cymru** yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau lleol. Cynghorau sy'n talu am y wefan ac fe dalodd Llywodraeth Cymru rai o'r costau sefydlu. Clywsom nad yw pobl ifanc yn defnyddio'r wefan. Nid yw rhai'n gwybod ble i fynd i gael cymorth am nad ydynt yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am ei roi.

Dywedodd sefydliadau wrthym hefyd nad yw'r rhan fwyaf o oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn ymwybodol o'u hawliau i asesiad o anghenion gofalwr unigol dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae Dilyn y Ddeddf ac ymatebion i ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad Cenedlaethol yn codi pryderon tebyg. Mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio ymgyrch cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o hawliau gofalwyr dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

## Dysgu o'r ddarpariaeth a'i gwella ar lawr gwlad

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella'r wybodaeth sydd ganddi i ddynodi a yw oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn cael yr help y mae ei angen arnynt trwy ei Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd a'i gwaith Mesur y Mynydd.

Dywedodd Dilyn y Ddeddf ei bod yn anodd gweld sut y mae rhai gwasanaethau i ofalwyr yn diwallu anghenion pobl y mae arnynt fwyaf angen help. Fe argymhellodd ffyrdd y gallai Llywodraeth Cymru a chynghorau wella'r wybodaeth sydd ganddynt am ofalwyr o bob oed. Erbyn mis Ebrill 2020, mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio bod â ffordd o fesur a yw gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn cael yr help y mae'i angen arnynt.


Dywedodd Dilyn y Ddeddf nad yw'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi cael llawer o effaith ar ofalwyr hyd yma. Dywedodd y dylai Llywodraeth Cymru ddeall y rhwystrau yn y system sy'n atal y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant rhag gwella cymorth i ofalwyr. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn rhy gynnar i ddeall effaith y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar ofalwyr. Bydd yn defnyddio gwybodaeth o'i Fframwaith Perfformiad a Gwella, Mesur y Mynydd a'r gwerthusiad annibynnol i ddeall yr effaith yn y dyfodol.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn adolygu'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer gofalwyr ifanc[10] mewn ysgolion uwchradd, unedau cyfeirio disgyblion a cholegau addysg bellach ledled Cymru. **Cyhoeddodd Estyn ei hadroddiad ym mis Mai 2019.**

TROEDNODION

10 Gan gynnwys oedolion ifanc sy'n ofalwyr mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion a cholegau addysg bellach.

## Darparu arweinyddiaeth



Trwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i gynghorau, byrddau iechyd a'u partneriaid i weithio mewn ffordd wahanol iawn. Ond mae problemau o ran y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio, sy'n golygu nad yw rhai oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn cael yr help y mae'i angen arnynt.

Mae asesiadau o anghenion gofalwyr unigol yn rhan hanfodol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a diwallu anghenion oedolion ifanc sy'n ofalwyr. Ond nid yw rhai cynghorau'n gwneud yr asesiadau. Canfu'r gwerthusiad Dilyn y Ddeddf nad oedd rhai gofalwyr wedi cael asesiad o anghenion neu nad oeddent yn ymwybodol a oeddent wedi cael un[11]. Dangosodd adborth o 14 o grwpiau ffocws ar gyfer y Pwyllgor nad oedd rhai gofalwyr wedi cael cynnig asesiadau. Roedd rhai wedi gorfod disgwyl am dri i chwe mis ac roedd eraill yn teimlo'u bod yn cael eu hannog i beidio â chael asesiad. Galwodd Gofalwyr Cymru y diffyg asesu a chymorth yn 'drallodus' ac yn 'fethiant systematig i ddarparu gwasanaeth'. Mae sefydliadau'r trydydd sector yn poeni bod peidio â gwneud yr asesiadau'n golygu na fydd oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn cael yr help y mae'i angen arnynt ac y gallai eu problemau droi'n argyfyngus.

Mae'n anodd gwybod faint o bobl sy'n peidio â chael asesiadau gan mai gwybodaeth gyfyngedig sydd am nifer y gofalwyr yng Nghymru. Nid yw rhai pobl yn dymuno cael eu diffinio fel gofalwr ac mae rhai'n gwrthod asesiad[12]. Mae cynghorau'n casglu gwybodaeth am nifer yr asesiadau gofalwyr a wneir ganddynt bob blwyddyn a faint sy'n arwain at gynllun cymorth. Nid ydynt yn casglu gwybodaeth am y rhesymau pam fod gofalwyr yn gwrthod asesiadau. Fe argymhellodd Dilyn y Ddeddf fod cynghorau'n casglu gwybodaeth am nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr a gwasanaethau ar gyfer gofalwyr a ddarperir y pen o'r boblogaeth bob mis.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwybod ar hyn o bryd a yw cynghorau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant nac a yw pwyllgorau cynghorau'n dwyn eu cynghorau i gyfrif am gydymffurfio ac ansawdd eu cymorth ar gyfer gofalwyr. Mae'n bwriadu defnyddio'i Fframwaith Perfformiad a Gwella er mwyn deall perfformiad cynghorau yn well. Gallai hefyd feddwl am ffyrdd eraill o weithio gyda chynghorau i wneud yn siŵr bod gofalwyr yn cael eu hasesu ac yn cael y cymorth y mae'i angen arnynt.

### TROEDNODION

11 Mae angen i ofalwyr ofyn i'w cyngor lleol am asesiad, felly mae'n bosibl nad oedd rhai o'r gofalwyr a ymatebodd i'r gwerthusiad wedi gofyn am asesiad.

12 Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i gynghorau gofnodi'r rhesymau pam fod gofalwyr yn gwrthod asesiad yn ei fframwaith perfformiad a gwella newydd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2019

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**